Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y Cod Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol

## Dogfen Ymgynghori - rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl

Rhowch eich barn erbyn **22 Mawrth 2019** os gwelwch yn dda.



Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o ymgynghoriad Llywodraeth Cymru: **Dogfen Ymgynghori Y Cod Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol – Fersiwn Plant a Phobl Ifanc, Rhagfyr 2018**

© Crown Copyright December 2018
WG36741

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall. Mae'r geiriau a beth maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai y byddwch angen help a chefnogaeth i ddarllen a deall y ddogfen yma. Gofynnwch i rhywun rydych yn ei adnabod i'ch helpu chi.

Efallai bod rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain mewn **ysgrifen glas trwm** ac mae beth maen nhw'n feddwl yn cael ei esbonio yn y blwch o dan y gair.

Os ydy'r gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto mae e'n cael ei ddangos mewn ysgrifen glas normal. Gallwch weld beth mae'n feddwl yn y **Geiriau anodd** ar dudalen 29.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lle mae'r ddogfen yn dweud 'ni', mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:

Cyfeiriad: Cangen Trawsnewid ADY
Adran Cefnogaeth i Ddysgwyr
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ




Gwefan: https://beta.llyw.cymru/ymgyngoriadau

E-bost: SENreforms@gov.wales

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei ddeall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

# Cynnwys

**Tudalen**


**Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma....2**

**Cyflwyniad....4**

**Am y ddogfen yma....5**

**Syniadau newydd ar gyfer y ddeddf newydd....7**

**Cynllun i bob plentyn a pherson ifanc gydag ADY....8**

- Cael cynllun....11
- Cael gwybodaeth i ysgrifennu cynlluniau....13
- Gweld os ydy gwasanaethau iechyd yn gallu helpu....14

**Newid y cynllun....15**

- Pan mae rhywbeth wedi newid....15
- Pan mae plant, rhieni neu bobl ifanc ddim yn hapus....16

**Anghytuno gyda chynlluniau....18**

- Pan mae plant, rhieni a phobl ifanc yn anghytuno....18
- Eiriolaeth....20
- Gofyn i'r Tribiwnlys benderfynu beth sy'n gywir....22

**Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol....26**

- Pwy ddylai fod yn CADY....26
- Beth ddylai CADY wneud....27

**Geiriau anodd....29**

# Cyflwyniad



Rydyn ni eisiau gwneud addysg a dysgu yn well i blant a phobl ifanc gydag **Anghenion Dysgu Ychwanegol**. Mae hyn hefyd yn cael ei alw yn **ADY**.



Mae plant a phobl ifanc gydag **ADY** angen cefnogaeth ychwanegol i ddysgu. Efallai bod hyn oherwydd:

- mae ganddyn nhw anhawster neu anabledd sydd yn meddwl bod nhw angen cefnogaeth ychwanegol
- maen nhw'n ei chael hi'n fwy anodd i ddysgu na phlant a phobl ifanc eraill o'r un oed
- mae ganddyn nhw anabledd sydd yn meddwl nad ydyn nhw'n gallu defnyddio'r ysgol neu'r coleg lleol.


Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Helpu plant a phobl ifanc sydd angen cefnogaeth ychwanegol i ddysgu**

Plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol



Eglurhad hawdd ei ddeall yw hwn o Fil Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru)

Chwefror 2017

Rydyn ni'n newid y ffordd rydyn ni'n cefnogi plant a phobl ifanc gydag ADY rhwng 0 a 25 oed. Yn 2017 fe wnaethon ni ddeddf newydd o'r enw **Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru)**.



Nod y ddeddf yma ydy gwella cefnogaeth i blant a phobl ifanc gydag ADY. A gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn cael y cyfleoedd gorau mewn bywyd.

# Am y ddogfen yma

Mae'r ddogfen yma yn esbonio beth sydd yn y **Cod** newydd ar gyfer y **Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru)**.




Mae'r **Cod** yn rhoi rheolau a chyngor i helpu awdurdodau lleol ac eraill i wneud beth mae'r ddeddf yn dweud wrthyn nhw am wneud. Fe fyddwn ni yn ei alw yn **Cod**.



Mae'r Cod ar gyfer pawb sydd yn ngofal cefnogi plant a phobl ifanc gydag ADY. Er enghraifft, pobl sydd yn gweithio mewn:

- ysgolion
- colegau
- awdurdodau lleol
- gwasanaethau iechyd.




Rhaid iddyn nhw wneud beth mae'r Cod yn ddweud. Mae e'n gyfraith.



Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi yn feddwl am ein syniadau ar gyfer y Cod. Darllenwch y ddogfen yma os gwelwch yn dda. Ac yna dweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl drwy lenwi'r ffurflen ymateb.




Dywedwch wrthyn ni os gwelwch yn dda erbyn **22 Mawrth 2019**.



# Syniadau pwysig ar gyfer y ddeddf newydd

Mae'r Cod yn dweud sut y bydd y ddeddf yn gweithio mewn bywyd go iawn. Felly rydyn ni eisiau i'r Cod helpu pobl weithio mewn ffordd sydd yn meddwl eu bod nhw yn:



- Gwrando ar farn a theimladau plant a phobl ifanc. A gwneud yn siŵr eu bod nhw'n cael eu cynnwys pan mae penderfyniadau'n cael eu gwneud am eu cefnogaeth.



- Gwneud yn siŵr bod y gefnogaeth gywir yn cael ei roi'n gyflym.



- Gweithio gyda'n gilydd i roi'r gefnogaeth orau.



- Gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn gallu mynd i'w hysgol neu goleg lleol.




- Gwneud yn siŵr bod y gefnogaeth yn Gymraeg os oes angen.

# Cynllun ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc gydag ADY




Fe fydd gan blant a phobl ifanc gydag ADY gynllun. Enw hwn fydd **cynllun datblygu unigol**.

**Cynllun datblygu unigol** ydy'r enw am y cynllun newydd y bydd plant a phobl ifanc gydag ADY yn ei gael. Fe fydd hyn yn lle **datganiad** neu fathau eraill o gynlluniau ysgol neu goleg.



Fe fydd y cynllun datblygu unigol yn dweud pa fath o gefnogaeth y mae'r plentyn neu'r person ifanc ei angen er mwyn gallu dysgu. A beth fydd yn cael ei wneud i'w cefnogi'n iawn yn yr ysgol neu yn y coleg.



Rydyn ni wedi penderfynu yn barod beth fydd rhaid i'r cynllun ddweud:



- Pa ADY sydd gan y plentyn neu berson ifanc. Er enghraifft ADCG (ADHD), problem gyda chlyw neu anabledd dysgu.



- Sut y bydd y plentyn neu'r person ifanc yn cael eu cefnogi. A gan pwy.





- Os y dylai’r gefnogaeth fod yn Gymraeg.




- Enw unrhyw ysgol arbennig neu goleg arbennig y bydd y plentyn neu’r person ifanc yn mynd iddo.



Mae gennym ni rai syniadau eraill am beth y mae’n rhaid i’r cynllun ddweud. Dyma nhw:




- Enw, oedran, rhyw a chyfeiriad y plentyn neu’r person ifanc.



- Sut i siarad gyda’r plentyn neu’r person ifanc. Er enghraifft, iaith arwyddion.



- Pwy sydd yn gofalu bod y cynllun yn cael ei ddiweddaru ac yn gwneud yn siŵr ei fod yn gweithio.



- Proffil 1 tudalen am beth mae'r plentyn neu'r person ifanc yn ei hoffi a dim yn ei hoffi. A beth sy'n gweithio'n dda a dim yn gweithio mor dda.




- Os y bydd y plentyn neu'r person ifanc yn dysgu pethau gwahanol yn yr ysgol i blant eraill eu hoedran nhw.



- Pa wybodaeth sydd wedi cael ei defnyddio i ysgrifennu'r cynllun.



- Pethau pwysig sydd wedi digwydd. Er enghraifft, newid ysgol, profion ysbyty neu bethau sydd wedi digwydd yn y cartref.





- Unrhyw newidiadau sydd yn mynd i ddigwydd. Er enghraifft, newid ysgol neu mynd i'r coleg.

# Cael cynllun




Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr nad ydy plant a phobl ifanc yn gorfod aros yn rhy hir i gael cynllun. Felly fe fydd y Cod yn dweud bod rhaid ysgrifennu cynlluniau o fewn amser arbennig.




Fe fydd y rhan fwyaf o'r cynlluniau yn cael eu hysgrifennu gan ysgolion a cholegau.



Weithiau fe fydd awdurdod lleol yn ysgrifennu cynllun. Mae hyn yn gallu digwydd oherwydd bod gan blentyn neu berson ifanc lawer o anghenion i gefnogi.




**Ysgolion a cholegau yn ysgrifennu'r cynllun**

Fe fydd gan ysgolion a cholegau 7 wythnos i ysgrifennu cynllun. Neu i ddweud nad ydyn nhw'n meddwl bod angen cynllun.



Rydyn ni'n meddwl bod ysgolion a cholegau angen 7 wythnos i ysgrifennu cynllun. Fe fyddan nhw angen amser i:




- Dweud wrth y plentyn, rhieni neu'r person ifanc y byddan nhw'n penderfynu os oes ganddyn nhw ADY.



- Cael yr holl wybodaeth maen nhw angen i ysgrifennu'r cynllun. Fel siarad gyda'r plentyn, eu rhieni neu'r person ifanc.



- Ysgrifennu'r cynllun a'i roi i'r plentyn, rhieni neu'r person ifanc. Neu dweud nad oes ei angen.




**Awdurdodau lleol yn ysgrifennu'r cynllun**

Fe fydd gan awdurdodau lleol 12 wythnos i ysgrifennu cynllun.



Rydyn ni'n meddwl y byddan nhw angen mwy o amser nag ysgolion a cholegau. Y rheswm am hynny ydy y byddan nhw'n ysgrifennu cynlluniau i blant a phobl ifanc sydd gyda llawer o anghenion i gefnogi.



Fe fydd angen iddyn nhw gael llawer mwy o wybodaeth am anghenion cefnogi. Efallai bydd angen iddyn nhw siarad gyda meddygon neu weithwyr cymdeithasol.



Mae cael mwy o wybodaeth yn meddwl y bydd yna fwy i feddwl amdano. Fe fydd angen iddyn nhw feddwl yn ofalus am yr holl wybodaeth i wneud yn siŵr  bod y gefngoaeth yn gywir.



# Cael gwybodaeth i ysgrifennu cynlluniau


Mae'n bwysig nad ydy awdurdodau lleol yn gorfod aros yn rhy hir am yr wybodaeth maen nhw angen i ysgrifennu cynlluniau.



Rhaid i awdurdodau lleol gael llawer o wybodaeth am y plentyn neu'r person ifanc i ysgrifennu eu cynlluniau. Efallai bod angen iddyn nhw ofyn i bobl eraill am wybodaeth. Er enghraifft, maen nhw'n gallu gofyn i athrawon, meddygon neu weithwyr cymdeithasol.



Os ydy hi'n cymryd amser hir i gael gwybodaeth gan bobl eraill fe fydd yn cymryd amser hir i ysgrifennu cynlluniau.




Rydyn ni'n meddwl y dylai pobl gael 6 wythnos i ateb yr awdurdod lleol.



Rydyn ni'n meddwl bod 6 wythnos yn ddigon o amser hyd yn oed os oes yna lawer o wybodaeth i'w rhoi i'r awdurdod lleol.



Rydyn ni'n meddwl bod cael yr wybodaeth o fewn 6 wythnos yn meddwl y bydd awdurdodau lleol yn gallu ysgrifennu cynlluniau mewn da bryd.


# Gweld os ydy'r gwasanaethau iechyd yn gallu helpu



Efallai bod plant a phobl ifanc yn gallu cael cefnogaeth gan y gwasanaethau iechyd.



Ddylen nhw ddim gorfod aros yn rhy hir i weld os ydy'r gwasanaethau iechyd yn gallu helpu.



Rydyn ni'n meddwl y dylai'r gwasanaethau iechyd ddweud wrth bobl yn gyflym os ydyn nhw'n gallu helpu. Rydyn ni'n meddwl y dylen nhw wneud hyn o fewn 6 wythnos.



Rydyn ni'n meddwl y bydd hyn yn gweithio oherwydd:



- Mae gwasanaethau iechyd yn gwneud rhywbeth fel hyn nawr ar gyfer **datganiadau**.



- Mae'r un faint o amser ag sydd gan bobl eraill i roi gwybodaeth i awdurdodau lleol.

# Newid y cynllun

## Pan mae rhywbeth wedi newid




Os oes rhywbeth wedi newid ym mywyd y plentyn neu'r person ifanc maen nhw'n gallu gofyn am **adolygiad** o'u cynllun.




**Adolygiad** ydy pan mae rhywun yn edrych ar y cynllun eto i wneud yn siŵr ei fod yn dal yn gweithio ac os oes angen ei newid neu beidio.




Ddylen nhw ddim gorfod aros yn rhy hir i rhywun adolygu'r cynllun.




Fe fydd gan ysgolion a cholegau 7 wythnos i adolygu cynllun.



Rydyn ni'n meddwl y bydd hi'n cymryd yr un faint o amser i adolygu'r cynllun ag y gwnaeth hi i ysgrifennu'r cynllun. Oherwydd fe fydd angen gwneud yr un math o bethau.




Fe fydd gan awdurdodau lleol 7 wythnos hefyd i adolygu cynlluniau.




Rydyn ni'n meddwl bod awdurdodau lleol yn gallu adolygu cynlluniau yn fwy cyflym nag y maen nhw'n gallu ysgrifennu cynlluniau. Oherwydd dydyn ni ddim yn meddwl y bydd angen iddyn nhw gael cymaint o wybodaeth i adolygu'r cynllun.


## Pan mae plant, rhieni neu bobl ifanc ddim yn hapus



Os nad ydy plant, rhieni neu bobl ifanc yn hapus gyda'r cynllun mae'r ysgol wedi ei ysgrifennu, maen nhw'n gallu mynd at yr awdurdod lleol.



Maen nhw'n gallu gofyn i'r awdurdod lleol edrych ar y cynllun.




Fe fydd gan yr awdurdod lleol 7 wythnos i wneud hyn.




Rydyn ni’n meddwl y byddan nhw angen 7 wythnos i edrych ar y cynllun. Fe fydd angen iddyn nhw wneud yr un fath o bethau ag y mae’r ysgol wedi’i wneud i ysgrifennu’r cynllun. Er enghraifft:



- Cael yr wybodaeth sydd ei angen ar gyfer y cynllun. Ac edrych drwyddo.



- Meddwl os ydy’r cynllun yn gywir.




- Ysgrifennu cynllun newydd os oes angen.

# Anghytuno am gynlluniau

## Pan mae plant, rhieni a phobl ifanc yn anghytuno



Os ydy plant, rhieni neu bobl ifanc yn anghytuno gyda'u cynllun rydyn i eisiau i bethau gael eu gweithio allan yn gyflym.



Rydyn ni wedi penderfynu bod rhaid i awdurdodau lleol:



- Ceisio stopio anghytuno rhag digwydd.



- Os oes yna anghytundeb yna rhaid eu gweithio allan yn gyflym.



- Dweud wrth blant a phobl ifanc beth maen nhw'n wneud i weithio allan yr anghytundeb.

I helpu stopio a gweithio allan unrhyw anghytuno rydyn ni'n meddwl y dylai awdurdodau lleol:




- Rhoi gwybodaeth ar eu gwefan am beth maen nhw'n wneud am anghytundebau.



- Gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn gallu deall beth maen nhw'n wneud i weithio allan yr anghytundeb.



- Dweud wrth blant a phobl ifanc eu bod nhw'n gallu siarad gyda rhywun a chael help.



- Gwneud yn siŵr bod pobl sydd yn helpu yn gwybod am ADY a'u bod nhw'n deg.



- Gwneud yn siŵr ei bod yn hawdd i blant a phobl ifanc gael help.



- Gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn gallu cael help ar eu pen eu hunain os nad ydyn nhw eisiau help gan eu rhieni.

# Eiriolaeth



Os nad ydy anghytundeb yn cael ei weithio allan mae plant a phobl fanc yn gallu cael help gan **eiriolydd**.



**Eiriolydd** ydy rhywun sydd yn siarad dros rhywun arall. Maen nhw'n gallu gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod beth mae plant a phobl ifanc yn feddwl a sut maen nhw'n teimlo.



Rhaid i awdurdodau lleol wneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn gallu cael eiriolydd.



Rydyn ni'n meddwl ei bod hi'n bwysig bod awdurdodau lleol yn dweud wrth bobl am eiriolwyr. Er enghraifft drwy bosteri, taflenni a gwefannau.



Rydyn ni'n meddwl y dylai awdurdodau lleol wneud yn siŵr bod eiriolwyr yn gwneud gwaith da.

Fe ddylen nhw wneud yn siŵr bod eiriolwyr:



- yn rhoi help yn gyflym



- yn deall popeth am ADY



- yn gwybod sut i siarad gyda phlant a phobl ifanc mewn gwahanol ffyrdd, fel mewn iaith arwyddion




- yn ddiogel i weithio gyda phlant a phobl ifanc.

# Gofyn i'r Tribiwnlys benderfynu beth sydd yn iawn



Mae plant, rhieni a phobl ifanc yn gallu gofyn i **Dribiwnlys Addysg Cymru** edrych ar anghytundeb am gynlluniau.




Mae **Tribiwnlys Addysg Cymru** yn grŵp arbennig o bobl gyda'r swydd o ddelio gydag anghytundebau.



Maen nhw'n gallu gwneud hyn os nad ydyn nhw'n hapus gyda:




- eu cynllun



- beth mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud



- beth mae'r coleg wedi'i wneud.



Fe fydd y Tribiwnlys eisiau gwybod pam nad ydy'r plentyn, rhieni neu berson ifanc yn hapus. Fe fydd rhaid iddyn nhw ysgrifennu am y pethau nad ydyn nhw'n hapus amdanyn nhw. Ac fe fydd rhaid iddyn nhw esbonio pam eu bod yn meddwl nad ydy'r awdurdod lleol neu'r coleg yn gywir. Enw hyn ydy achos.



Fe fydd y Tribiwnlys yn dweud wrth yr awdurdod lleol neu'r coleg os oes yna achos yn eu herbyn nhw. Fe fydd y Tribiwnlys yn gofyn i'r awdurdod lleol neu'r coleg ysgrifennu eu hachos eu hunain. Fe fydd rhaid iddyn nhw ysgrifennu pam eu bod nhw'n meddwl bod beth maen nhw wedi ei wneud yn gywir.




Rydyn ni'n meddwl y dylai'r awdurdod lleol neu'r coleg allu darllen yr achos yn eu herbyn cyn iddyn nhw ysgrifennu un eu hunain.



Mae hyn yn meddwl bod yr awdurdod lleol neu'r coleg yn gallu ysgrifennu am y pethau nad ydy'r plentyn, rhieni neu berson ifanc yn hapus amdanyn nhw. Fyddan nhw ddim yn ysgrifennu am bethau sydd ddim yn cyfrif.



Rydyn ni'n meddwl bod hyn yn bwysig. Fe fydd yn arbed amser ac yn helpu i wneud yn siŵr bod pethau'n cael eu gwneud yn gyflym. Fydd y Tribwnlys ddim yn gorfod darllen am bethau sydd ddim yn cyfrif.  Ac maen nhw'n gallu gwneud penderfyniad yn gyflym.




Pan mae'r plentyn, rheini neu berson ifanc yn mynd â'u hanghytundeb i'r Tribiwnlys rydyn ni'n meddwl y dylai hyn ddigwydd:




1. Fe fyddan nhw'n gofyn i'r Tribiwnlys edrych i mewn i'r anghytundeb.



2. Fe fyddan nhw'n ysgrifennu **achos** yn dweud pam nad ydyn nhw'n hapus.



3. Fe fyddan nhw'n anfon yr **achos** at y Tribiwnlys.




4. Fe fydd ganddyn nhw 8 wythnos o'r anghytundeb i ddweud wrth y Tribiwnlys eu bod nhw eisiau help ac i anfon eu **hachos** at y Tribiwnlys.



5. Fe fydd y Tribiwnlys yn dweud wrth yr awdurdod lleol neu'r coleg ar unwaith pan mae plentyn, rhieni neu berson ifanc wedi cysylltu gyda nhw i ofyn am help.



6. Fe fydd y Tribiwnlys yn anfon yr **achos** i'r awdurdod lleol neu'r coleg cyn gynted ag y maen nhw wedi ei gael.



7. Yna fe fydd yr awdurdod lleol neu'r coleg yn ysgrifennu **achos** i ddweud pam maen nhw'n meddwl eu bod yn gwneud y peth cywir. Fe fydd ganddyn nhw 4 wythnos i ysgrifennu'r **achos**.

# Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol



Rydyn ni eisiau i bob ysgol a choleg gael **Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol**.

Gwaith **Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol** fydd gwneud yn siŵr bod yr holl blant a phobl ifanc gydag ADY yn cael yr help a'r gefnogaeth maen nhw angen. Fe fyddwn yn eu galw yn **CADY**.



## Pwy ddylai fod yn CADY

Mae'n bwysig bod y person yma yn berson cywir ar gyfer y gwaith.



Rydyn ni'n meddwl y dylai CADY fod yn athrawon neu yn rhywun sydd yn gwneud gwaith tebyg. Ar hyn y bryd rydyn ni'n galw'r bobl yma yn **CAAA (SENCos)**.




Rydyn ni'n meddwl bod hyn yn bwysig oherwydd mae athrawon yn gallu dweud wrth y pennaeth os oes angen newid rhywbeth ar draws yr ysgol gyfan.



Dydy rhai **CAAA (SENCos)** ddim yn athrawon. Ond rydyn ni'n meddwl os ydyn nhw'n gwneud gwaith da nawr maen nhw'n gallu bod y person cywir i fod yn CADY.

# Beth ddylai CADY wneud?



Fe fydd CADY yn gwneud llawer o bethau i gefnogi plant a phobl ifanc gydag ADY.

Fe fyddan nhw yn:



- Gweld pa blant a phobl ifanc sydd gydag ADY ac yn gwneud yn siŵr bod ganddyn nhw gynlluniau.




- Gwneud yn siŵr bod cynlluniau'n cael eu diweddaru.



- Gwneud yn siŵr bod yr holl blant a phobl ifanc gydag ADY yn cael y gefnogaeth maen nhw angen.



- Gwneud yn siŵr bod y gefnogaeth i blant a phobl ifanc yn gweithio.



- Rhoi gwybodaeth i blant, rhieni a phobl ifanc.



- Dysgu mwy am sut i roi'r gefnogaeth orau i blant a phobl ifanc gydag ADY.



- Dangos i athrawon eraill sut i helpu plant a phobl ifanc drwy ddysgu mewn gwahanol ffyrdd.



- Cefnogi athrawon a phobl eraill sydd yn helpu plant a phobl ifanc gydag ADY.




- Helpu plant a phobl ifanc pan mae newid yn digwydd. Er enghraifft, gadael ysgol neu mynd i'r coleg.



- Gweithio gydag eraill i wneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn cael y gefnogaeth maen nhw angen.



- Helpu plant, rhieni a phobl ifanc pan nad ydy pethau'n mynd yn dda.

# Geiriau anodd

## Adolygiad

Adolygiad ydy pan mae rhywun yn edrych ar y cynllun eto i wneud yn siŵr ei fod yn dal yn gweithio ac os oes angen ei newid neu beidio.

## Anghenion Dysgu Ychwanegol / ADY

Mae plant a phobl ifanc gydag ADY angen cefnogaeth ychwanegol i ddysgu. Efallai bod hyn oherwydd:

- mae ganddyn nhw anhawster neu anabledd sydd yn meddwl bod nhw angen cefnogaeth ychwanegol
- maen nhw'n ei chael hi'n fwy anodd i ddysgu na phlant a phobl ifanc eraill o'r un oed
- mae ganddyn nhw anabledd sydd yn meddwl nad ydyn nhw'n gallu defnyddio'r ysgol neu'r coleg lleol.

## Y Cod Anhenion Dysgu Ychwanegol / Cod

Mae'r Cod yn rhoi rheolau a chyngor i helpu awdurdodau lleol ac eraill i wneud beth mae'r ddeddf yn dweud wrthyn nhw am wneud. Fe fyddwn ni yn ei alw yn Cod.

## Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol / CADY

Gwaith Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol fydd gwneud yn siŵr bod yr holl blant a phobl ifanc gydag ADY yn cael yr help a'r gefnogaeth maen nhw angen. Fe fyddwn yn eu galw yn CADY.

## Cynllun Datblygu Unigol

Cynllun datblygu unigol ydy'r enw am y cynllun newydd y bydd plant a phobl ifanc gydag ADY yn ei gael. Fe fydd hyn yn lle datganiad neu fathau eraill o gynlluniau ysgol neu goleg.

### Eiriolydd

Eiriolydd ydy rhywun sydd yn siarad dros rhywun arall. Maen nhw'n gallu gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod beth mae plant a phobl ifanc yn feddwl a sut maen nhw'n teimlo.

### Tribiwnlys Addysg Cymru

Mae Tribiwnlys Addysg Cymru yn grŵp arbennig o bobl gyda'r swydd o ddelio gydag anghytundebau.